



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**8 Mawrth 2019**

**9:00 am – 12:30 pm**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol:	Y Cyng. Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan E Jones, Alwyn Jones, Francine Salem (yn bresennol ar ran Charlotte Walton), Chris Stockport, Y Cyng. Joan Lowe (JLo), Y Cyng. Liz Roberts, Ffion Johnstone, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, Kevin Roberts, Liz Hughes (yn bresennol ar ran Estelle Hitchon), Y Cyng. Dylan Rees (yn bresennol ar ran y Cyng. Llinos Medi Huws), Marian Wyn Jones, Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Morwena Edwards, Jane Davies (yn bresennol a ran Neil Ayling), Neill Anderson, Peter Williams, Rob Smith, Wendy Jones
Ymddiheuriadau:	Bethan Jones Edwards, Nicola Stubbins, Charlotte Walton, Neil Ayling, Dave Worrall, Lynda Colwell, Teresa Owen, Judith Greenhalgh, Y Cyng. Bobby Feeley, Estelle Hitchon, Y Cyng. Christine Jones, Clare Budden, Shan Lloyd Williams, Richard Weigh, Llinos Medi Huws
Hefyd yn bresennol:	Jason Lintern, Pennaeth Hybiau ac Academiâu LIC Sarah Bartlett, Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, Tîm Cydweithredu Rhanbarthol Lynne Grundy, Cyfarwyddwr Cyswllt Ymchwil ac Arloesi BIPBC John Williams, Swyddog Comisiynu a Chaffael, Tîm Cydweithredu Rhanbarthol

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u>  Estynnwyd croeso cynnes i bawb. Cyflwynodd bawb eu hunain a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.  Gan fod tymor swydd y Cadeirydd yn dod i ben heddiw, cymerodd GR y cyfle i ddiolch i'r bwrdd am eu cydweithrediad, eu hymroddiad a'u cyflawniadau dros y pedair blynedd diwethaf, dwy flynedd fel cadeirydd ac fel is-gadeirydd cyn hynny. Dymunodd GR yn dda i'r bwrdd yn y	

	<p>gwaith sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru yng nghyswllt y cynigion ar gyfer trawsnewid, sy'n gyfle enfawr a chyffrous ar gyfer y rhanbarth.</p> <p>Diolchodd ME i GR, ar ran holl aelodau'r BPRh, am ei gyfraniad sylweddol i'r BPRh. O dan arweinyddiaeth GR, mae'r Bwrdd wedi bwrw ymlaen â gwaith partneriaeth, ac mae trafodaethau onest ac agored wedi helpu i lywio lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Nododd ME hefyd bod GR nid yn unig yn sefyll i lawr fel cadeirydd BPRhGC, ond hefyd o'i rôl yng Nghabinet Cyngor Gwynedd, ac felly ni fyddai mwyach yn aelod o'r BPRh, ac felly dymunodd y gorau iddo i'r dyfodol.</p> <p>Estynnodd y Bwrdd gydymdeimlad hefyd i Bethan Jones Edwards yn ei phrofedigaeth ddiweddar.</p>	
<p><b>2.</b></p>	<p><u>Nodiadau a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr 8 Chwefror fel cofnod cywir.</p> <p>Camau i'w gweithredu o gyfarfod mis Chwefror:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Partneriaid i roi gwybod pryd y bydd y Strategaeth AD wedi bod trwy eu prosesau.</li> <li>• Pob partner i anfon manylion eu hyrwyddwr ASD.</li> <li>• BJE i gysylltu gyda LIC ynghylch adborth gan ofalwyr.</li> </ul> <p>Camau gweithredu a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• MWil i ddarparu diweddariad ar Gynllun Tair Blynedd BIPBC – ar agenda cyfarfod heddiw.</li> <li>• Ar ôl ei gwblhau, bydd adroddiad blynyddol BPRhGC yn cael ei anfon at y BARh.</li> <li>• Byddir yn bwrw ymlaen â'r weledigaeth/strategaeth yn y gweithdy nesaf ym mis Ebrill.</li> <li>• Datblygu cynnig gan BPRhGC ar gyfer Ymchwil, Arloesedd a Gwelliant – ar agenda cyfarfod heddiw.</li> <li>• Ymatebion o ran yr ymateb rhanbarthol i'r Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth - Agenda Ebrill/Mai.</li> <li>• Yr ymgynghoriad i'w anfon at aelodau BPRhGC – cwblhawyd.</li> <li>• Cryfhau llywodraethiant o fewn Cytundeb Partneriaeth ICF - wedi hysbysu Gwasanaethau Cyfreithiol CSDd ac yn bwrw ymlaen â hyn.</li> <li>• Proses gyllid CGI – wedi'i chwblhau, a'i chytuno yng nghyfarfod CGI 15.2.19</li> <li>• Cynhwyswyd Tai yn y fersiwn hawdd ei darllen o'r cynllun 'Cymru Iachach'.</li> </ul>	<p>Pawb</p> <p>Pawb</p> <p>BJE</p>
<p><b>3.</b></p>	<p><u>Rhwydwaith Hybiau Ymchwil, Arloesi a Gwelliant</u></p> <p>Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan Jason Lintern, Pennaeth Hybiau ac Academiâu, LIC ar yr Hyb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant (YAaG) Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.</p>	

<p>Un o'r deg egwyddor dylunio genedlaethol o fewn 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yw sbarduno newid a thrawsnewid yn defnyddio ymchwil a gwybodaeth i ddeall beth sy'n gweithio; dysgu gan eraill a gweithio gyda hwy; defnyddio arloesi a gwelliant i ddatblygu a gwerthuso offerynnau a dulliau gweithio gwell.</p> <p>Bydd Hyb rhanbarthol yn gyfrwng i fwrw ymlaen ag alinio YAaG er mwyn mynd ar drywydd lefel uwch o ran ansawdd a gwerth, a bydd yn hyrwyddo camau i symleiddio gwasanaethau.</p> <p>Bydd yr Hyb rhanbarthol yn cryfhau rôl y BPRh yn y rhanbarth gyda'r holl weithgaredd yn cael ei yrru ymlaen gan y bwrdd, yn canolbwyntio ar gefnogi arloesi lleol a phartneriaethau sy'n gweithio tuag at fodolau newydd o ofal.</p> <p>Bydd gwaith yr Hyb dros y chwe mis cyntaf yn pwysu a mesur gweithgaredd rhanbarthol presennol; canfod y cyfleoedd gorau i wneud cynnydd, cynnig cyngor, gwneud penderfyniadau drwy werthuso ac ymgysylltu ag ystod o bartneriaid, prifysgolion, GCC, awdurdodau lleol a hefyd cyfleoedd o ran cyllid LIC a llywodraeth y DU, a gyrru hyn ymlaen yn y rhanbarth. Mae'r gwaith hefyd yn ceisio lleihau dyblygu, ailadrodd a gwastraff, gan ddod â hybiau ynghyd fel cydweithfa i rannu profiadau, gwybodaeth a'r darlun cenedlaethol.</p> <p>Bydd angen i bob Hyb sicrhau eu bod yn gweithio tuag at ganlyniad cadarnhaol. Nid yw hybiau'n gyfrifol am ymgymryd ag ymchwil gwirioneddol, ond yn hytrach, ymgysylltu â'r ymchwil, yr her, a throsi hyn i fod yn wasanaeth sy'n rhoi mwy o werth.</p> <p>Nododd JL hefyd y bydd cyllid ar gael am naill ai dwy neu dair blynedd, mater i'r rhanbarth fydd cynaliadwyedd y gwasanaeth ar ôl hynny. Bydd gan yr Hyb broses lywodraethu gref, gan adrodd i BPRhGC ond hefyd i Brif Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Iechyd, ac i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn ALI'au.</p> <p>Gofynnodd BJ a oedd LIC yn barod i gynorthwyo â'r gwerthusiad YAaG er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn gwneud y buddsoddiad iawn. Eglurodd JLintern bod y gwerthusiad o'r trawsnewid yn cael ei reoli ar wahân gan Rachel Jones, LIC. Dylai'r Hyb benderfynu beth sy'n gweithio'n dda. Ni ddylai hyn ychwanegu haen ychwanegol o werthuso, byddai gan yr Hyb hefyd drosolwg o'r prosiectau trawsnewid.</p> <p>Holodd MWim sut y mae'r Hyb YAaG yn cysylltu â strategaeth economaidd LIC.</p> <p>Atebodd JLintern bod cysylltiad economaidd drwyddi draw gyda diwydiant ac ymgysylltu sy'n cyfrannu at yr economi, gan adeiladu ar waith prifysgolion, yn cynnwys gwaith yr Uned Economeg Iechyd ym Mangor.</p> <p><u>Cynnig Rhanbarthol</u> Darparodd Sarah Bartlett a Lynne Grundy drosolwg i'r Bwrdd o'r Cynnig</p>	<p>JLintern i gadarnhau'r cyfnod ariannu.</p>
---	---

ar gyfer y Hyb YAaG Rhanbarthol.

Datblygwyd cynnig gan BPRhGC ar gyfer Gogledd Cymru, yn seiliedig ar bedair blaenoriaeth y BPRh. Bydd pob prosiect yn cael ei werthuso er mwyn canfod bylchau, beth sy'n gweithio'n dda, pa welliannau y mae eu hangen a lle y gallai hybiau ychwanegu gwerth.

Roedd dadansoddiad SWOT wedi canfod y cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau ar gyfer yr isadeiledd YAaG, ynghyd â'r effaith o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi'r gwahaniaeth a wneir ganddo o ran hybu arloesi a phartneriaethau lleol.

Hysbysodd FfJ fwrdd adain Economeg Iechyd Bangor, teimlodd ei fod yn ased enfawr ac yn rhan o BIPBC a gofynnodd sut y gallem ymrwymo'r uned hon yng ngwaith yr hyb.

Cadarnhaodd LG gyfleoedd enfawr i weithio gyda phartneriaid. Roedd gwaith yn cael ei wneud o ran cwmpasu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd, ynghyd â'r bylchau a gwaith i'r dyfodol.

Dywedodd JW nad yw YAaG wedi'i drafod gan y Grŵp Arweinyddiaeth hyd yma, a chododd bryder fod y model yn rhy fiwrocraidd, ac awgrymodd efallai y gallai un o'r Prifysgolion sicrhau'r ddarpariaeth gyda'r Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru'n chwarae rhan yn y llywodraethu.

Cadarnhaodd MWil ei fod yn cytuno â'r cynnig ac yn ei gefnogi, ond nododd yr amodau a ganlyn:

- Bod angen cofnodi arweinyddion y rhaglen.
- Newid iaith o fewn y mesur llwyddiant o 'gallai i 'byddai'.
- Cynnwys mesurau perfformiad penodol i fesur newid mewn ymarfer
- Cynnwys cynllunio ar gyfer y dyfodol – dylunio'r hyb yn seiliedig ar fodel cynaliadwyedd.

Diolchodd ME i SB a LG am y cynnig cynhwysfawr hwn, a oedd wedi'i greu mewn cyfnod byr iawn o amser. Dywedodd ME ei bod yn gefnogol iawn i'r cynnig ac, erbyn meddwl, roedd yn teimlo y bu bwch yn ôl pob tebyg o ran sut yr oedd y BPRh wedi derbyn gwybodaeth a chynngor o ran beth oedd yn gweithio'n dda, beth oedd angen ei ehangu, a pha ymchwil y gellid ei defnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Byddai'r hyb yn cael ei ariannu am ddwy flynedd, ac y dylai hyn ganiatáu digon o amser i BPRhGC asesu gwerth ychwanegol yr hyb ar gyfer yr ardal. Awgrymodd ME y dylid cyflwyno'r cynnig i'w drafod gan y Grŵp Arweinyddiaeth er mwyn deall y mecanwaith ar gyfer adrodd a'r strwythur llywodraethu, ac os yw'r cynnig yn cael ei gytuno mewn egwyddor, yna dylai ei anfon wedyn i'w ystyried gan LIC.

Pwysleisiodd RS yr angen i fod yn glir o ran y nodau mewn perthynas â 'Cymru Iachach' a bod y sylw ar y rhannau o'r system sydd yn y rhyngwyneb/integreiddio.

Cadarnhaodd JLintern y bydd y canllawiau YAaG ar gael yn ystod yr wythnos nesaf, a fydd yn helpu i hoelio sylw a gweld cyfeiriad pethau.

	<p>Croesawodd JL eglurder o ran canlyniadau ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a sut y bydd hyn yn cael ei fesur.</p> <p>Nododd WJ y diffyg mewnbwn gan y trydydd sector, ac awgrymodd y dylid cynnwys y trydydd sector yng nghynaliadwyedd y model mewn rôl bosibl fel 'cyfaill beirniadol', a dywedodd hefyd bod llawer o ymchwil wedi'i gwblhau'n barod gan sefydliadau trydydd sector cenedlaethol.</p> <p>Cododd y Cyng. JL bryder o ran capasiti ar gyfer arweinyddiaeth, adnoddau staff, a bod angen darparu'r cynigion ar gyfer trawsnewid ac iddynt fod yn gynaliadwy o fewn cyfnod amser o ddwy flynedd.</p> <p>Nododd JLintern ei bod yn ymwybodol bod adnoddau mewn ALI yn brin. Bydd hyn yn her ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol a bydd ymroddiad aelodau staff ar lefel uwch yn sicrhau llwyddiant y gwaith hwn.</p> <p>Dywedodd GR ei bod yn anymarferol i Reolwr yr Hyb orfod adrodd i dri rheolwr gwahanol, fel y nodwyd yn y cynnig.</p> <p>Dywedodd JLintern mai cynnig Gogledd Cymru yw'r cynnig cyntaf sydd wedi'i weld ac roedd yn cydnabod gwaith cydweithwyr, a oedd yn fan cychwyn da.</p> <p>Roedd y BPRh yn cytuno y dylid cymeradwyo'r cynnig ar gyfer YAaG ar yr amod bod y materion sydd angen sylw yn cael eu datrys:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nodi arweinyddion y rhaglenni.</li> <li>2. Newid yr iaith o fewn y mesur llwyddiant o 'gallai' i 'byddai'.</li> <li>3. Cynnwys mesurau perfformiad penodol i fesur newid mewn ymarfer.</li> <li>4. Cynnwys cynllunio ar gyfer y dyfodol – dylunio'r hyb yn seiliedig ar fodel cynaliadwyedd.</li> <li>5. Newid strwythur adrodd Rheolwr yr Hyb.</li> </ol>	<p>Agenda'r GA ym mis Mawrth</p> <p>Agenda BPRhGC ym mis Ebrill</p>
<p>4.</p>	<p><u>Cymru Iachach</u></p> <p><u>Trawsnewid Cymunedol / Clystyrau – Chris Stockport</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhaodd CS bod y cynnig o ran Trawsnewid Clystyrau wedi derbyn cymeradwyaeth Weinidogol ac y disgwylir y llythyr grant gan LIC.</li> <li>• Mae gwaith wedi dechrau, a disgwylir yr hysbyseb ar gyfer y Rheolwr Rhaglen yr wythnos nesaf.</li> <li>• Cynhaliwyd trafodaeth am yr ymagwedd, h.y. fframwaith rhanbarthol a gweithredu a darparu ar lefel is-ranbarthol.</li> <li>• Trefnwyd cyfarfod i drafod trefniadau llywodraethu ar 2.4.19, a bydd hefyd yn trafod y gorgyffwrdd rhwng Gofal yn Nes at y Cartref a Thrawsnewid Clystyrau er mwyn osgoi dyblygu ac ailadrodd.</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Unwaith y bydd y Rheolwr Rhaglen yn ei swydd, bydd y fframwaith yn bwrw ymlaen gyda disgwyliadau ehangach o ran pwy sydd angen chwarae rhan.</li> </ul> <p><u>Trawsnewid Gwasanaethau Plant – Bethan Jones</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadarnhaodd BJ bod y cynnig o ran Plant wedi derbyn cymeradwyaeth Weinidogol ac y disgwylir llythyr grant gan LIC.</li> <li>• Mae'r Grŵp Trawsnewid Plant wedi'i ailgyfansoddi fel Grŵp Partneriaeth.</li> <li>• Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru bellach yn aelodau o'r grŵp, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i lunio'r cylch gorchwyl.</li> <li>• Yn y cyfarfod hwn, trafodwyd hefyd yr angen am gylich gorchwyl cyson ar gyfer yr holl fyrddau/grwpiau sy'n eistedd o dan y BPRh o fewn y rhaglen drawsnewid, a theimlwyd fod hyn o gymorth. Roedd y Bwrdd Trawsnewid wedi defnyddio Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (T4MH) fel y templed, ac awgrymodd y gallai hyn fod o gymorth ar gyfer y ddau fwrdd trawsnewid arall.</li> <li>• Mae gwaith wedi dechrau'n barod ar ystyried y strwythur a'r penodiadau sydd i'w gwneud.</li> </ul> <p><u>Diweddariad ar y Prosiect Trawsnewid Anableddau Dysgu – Sarah Bartlett</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llywodraethu'r Prosiect - mae Bwrdd Prosiect Anableddau Dysgu wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau plant ac oedolion, tai a chynrychiolwyr gofalwyr.</li> <li>• Bydd Rheolwr Prosiect yn dechrau ei swydd ar 11.03.2019 ac mae'r broses recriwtio ar waith ar gyfer 8 Swyddog Datblygu a Chynllunio. Bydd y cyfweiliadau'n cynnwys cyfranogiad gan y grŵp cyfranogiad rhanbarthol, bydd y tîm yn ei le erbyn Ebrill 2019.</li> <li>• Mae'r broses gaffael o ran gwaith gwerthuso yn cael ei osod ar dendr ar hyn o bryd, a bydd yn ei le erbyn mis Mai 2019.</li> <li>• Mae rhwydweithiau prosiect wedi'u diweddarau ynghylch cyfathrebu, gan gynnwys cyfleoedd o ran recriwtio a thendro, ac mae'r prosiect yn gweithio gyda'r grŵp cyfranogi rhanbarthol a grwpiau hunan-eiriolaeth i gynllunio eu rhan yn y prosiect a'r gwerthusiad.</li> </ul> <p><u>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru – Marian Wyn Jones</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dywedodd MWJ bod tri rheolwr busnes wedi'u penodi'n ddiweddar i gefnogi gwaith y Timau Gweithredu Lleol rhanbarthol.</li> <li>• Roedd y broses gyfweild yn cynnwys cynrychiolwyr TGLI a phanel o Caniad.</li> <li>• Mae papur trafod wedi'i lunio a bydd yn cael ei drafod a'i ystyried yn y Bwrdd T4MH y prynhawn hwn, y prif bwyntiau yw gwaith ataliol a hybu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</li> <li>• Mae'r briff ar gyfer gwerthuso yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd yn cael ei osod ar dendr ar wefan "GwerthwchiGymru" erbyn diwedd mis Mawrth, gyda chontract yn ei le erbyn diwedd Mai 2019.</li> </ul>	<p>CS a NS i ystyried mabwysiadu'r un Cylch Gorchwyl</p>
--	--

	<p>Gwnaeth MWil sylwadau ar bob un o'r adroddiadau uchod a chanddynt fframwaith rhanbarthol ond a fydd yn cael eu darparu ar lefel is-ranbarthol. Gofynnodd sut y bydd adborth yn cael ei gyflwyno i'r strwythur adrodd ac awgrymodd y dylid cael ffurf gyffredin.</p>	<p>Pob arweinydd i ystyried hyn</p>
<p>5.</p>	<p><u>Cynllun 3 Blynedd BIPBC</u></p> <p>Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan MWil ar Gynllun 3 Blynedd BIPBC.</p> <p>Mae MWil a BCUHB wedi croesawu'r cyfle i ymgysylltu â phartneriaid yng nghyswllt datblygu'r Cynllun Tair Blynedd ac adroddodd ynghylch cyfarfod Prif Swyddogion Gweithredol bob Cyngor Gwirfoddol Sirol, ynghyd â mynychu CSDd, CSYM, CG a CBSW.</p> <p>Yr adborth a dderbyniwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae partneriaid yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu</li> <li>• Angen gwneud rhagor o waith i ddeall rolau priodol</li> <li>• Gwelliannau o ran rhannu data</li> <li>• Pryder o ran gwasanaethau penodol – y Tu Allan i Oriau Arferol, CAMHS, Plant a SMS</li> <li>• Sut y mae BIPBC yn trefnu gwasanaethau lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu</li> <li>• Defnyddio gwahanol dermau, geirio mewn modd sy'n sicrhau bod y cyhoedd yn glir o ran y termau a ddefnyddir yn y cynllun</li> <li>• Cyfle i gydweithio i gyfeirio'r cyhoedd at yr amryw wasanaethau sydd ar gael</li> <li>• Rhannu cynlluniau gyda BIPBC</li> </ul> <p>Cyflwynir Cynllun Tair Blynedd BIPBC i Fwrdd PBC ar 28.3.19 a bydd yn cadarnhau'r rhaglen waith a'r prif agweddau sydd i'w cyflawni yn 2019/2020.</p> <p>Nododd GR y diffyg cyfeiriad at y Gymraeg yn y cynllun. Roedd AJ yn cytuno, gan nodi fod Cymreictod yn cynnwys dylanwadau a diwylliant, nid yn unig siarad yr iaith. Cadarnhaodd MWil, bod BIPBC yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a safonau'r Gymraeg a bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu gwneud ar y cynnydd, sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun hwn. Cadarnhaodd MWil ymhellach yr angen i ystyried yr agwedd ddiwylliannol ehangach ymhellach, fel rhan o'r swyddogaeth gynllunio.</p> <p>Nododd ME, yn ei rôl fel cynrychiolydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg LIC, bod BIPBC yn cael ei gydnabod fel un o'r Byrddau lechyd gorau o ran hybu'r Gymraeg, a bod hyn yn rhywbeth i ni fod yn falch ohono fel rhanbarth. Teimlodd bod cyfle felly i'r bwrdd iechyd fwrw ymlaen ymhellach â'r gwaith da hwn o fewn y cynllun.</p>	

<p>Adroddodd MWil ynghylch is-bwyllgor BIPBC sy'n cael ei gadeirio gan MWJ, a oedd yn ystyried arolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd o BIPBC, gan olrhain agweddau'r cyhoedd a'u canfyddiadau o wasanaethau sylfaenol. Nid yw'r arolwg wedi ystyried y modd y mae BIPBC yn cael ei ystyried fel sefydliad Cymreig.</p> <p>Awgrymodd MWJ y dylid llunio adroddiad ar gyfer BPRhGC, yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd a'r heriau i'r dyfodol o ran y Gymraeg.</p> <p>Cynigiodd ME ddod ag adroddiad yn ôl o Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru er gwybodaeth, ar gyfer cyfarfod o BPRhGC yn y dyfodol.</p> <p>Roedd KR yn credu nad oedd gofal heb ei drefnu o fewn y cynllun yn cynnwys yr elfennau ataliol o ganlyniad i ostyngiad mewn galw. Nododd MWil bod elfennau ataliol o fewn strwythur gwella iechyd y cynllun, a bydd gwaith ychwanegol yn cael ei gwblhau ar y maes hwn.</p> <p>Gofynnodd LR i MWil ymhelaethu ar y rhaglen gyfalaf Orthopedig ac yn rhinwedd ei rôl fel Hyrwyddwr Lluoedd Arfog Gogledd Cymru, holodd a oedd cyn-filwyr yn Lloegr yn derbyn triniaeth well na chyn-filwyr yng Nghymru.</p> <p>Ymatebodd MWil bod y bwrdd yn wynebu heriau o ran gwasanaethau ysbyty sydd wedi'u trefnu, gyda rhai orthopedig yn wynebu'r heriau mwyaf. Mae'r cynllun orthopedig, cynllun llwybr cyfan, yn effeithiol, ond nid yw'n cael ei ddarparu'n gyson ar draws Gogledd Cymru - ac mae'n cynnwys rheoli pwysau a ffordd iach o fyw er mwyn lleihau'r galw, ynghyd ag elfennau o Ofal yn Nes at y Cartref a gwasanaeth asesu cymunedol i atal atgyfeiriadau i'r ysbyty. Mae bwriad i leihau'r pum safle ar draws y rhanbarth i dri er mwyn galluogi darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon.</p> <p>Nododd MWJ y dylai cyn-filwyr yng Nghymru dderbyn yr un gwasanaeth yn union â chyn-filwyr eraill.</p> <p>Holodd JLe am wybodaeth bellach o fewn y model gwasanaeth newydd ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, o ran datblygu gwasanaeth sengl sy'n cwmpasu'r grŵp hwn o unigolion, h.y. dau wasanaeth sy'n cydweithio o dan un model.</p> <p>Atebodd MWil gan egluro bod gwaith yn mynd yn ei flaen ar y ddwy ffrwd waith fel rhan o'r cais trawsnewid.</p> <p>Eglurodd MWJ hefyd bod gwaith ar Iechyd Meddwl yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth sy'n cael ei chyflawni, ac awgrymodd y dylai JLe gymryd golwg ar y strategaeth yn y lle cyntaf.</p> <p>Holodd ME a oedd rôl i BPRh'au gynnig gwneud rhywfaint o waith craffu neu wirio'r blaenoriaethau a nodwyd gan BIPBC o ran y cynllun cyfalaf. A ddylai'r BPRh fod yn rhoi barn ar y meysydd a flaenoriaethwyd a sut y mae hyn yn adlewyrchu anghenion y poblogaethau?</p>	<p>ME</p> <p>MWJ i rannu strategaeth T4MH gyda JLe</p>
---	--



	<p>Dywedodd MWil y bydd y strategaeth Ystadau'n cael ei chyflwyno i Fwrdd BIPBC ym mis Mawrth er mwyn cymeradwyo buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn cynnwys y blaenoriaethau a bydd angen cymeradwyo'r holl gynlluniau, sydd wedi'u cefnogi gan eu hachos busnes eu hunain. Roedd MWil yn credu bod gan awdurdodau lleol yr un ddilema yng nghyswllt ystyriaethau o ran cyllid ar draws ardaloedd Gogledd a De eu siroedd, a dywedodd bod mwy o gyllid yn cael ei wario yng Ngorllewin y rhanbarth nag yn y Dwyrain o ran yr unigolyn y pen.</p> <p>Roedd BJ yn cytuno bod trafodaethau'n cael eu trefnu'n lleol a bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan yn nhermau darparu eglurhad mewn perthynas ag ystadau.</p> <p>Nododd MWil hefyd bod Gofal yn Nes at y Cartref yn llywio sut y mae'r strategaeth yn ystyried bregusrwydd y marchnadoedd preifat a chartrefi gofal, sut y mae'n cyd-fynd â gwaith ehangach ar lefel leol a chenedlaethol, strategaeth Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru a'r strategaeth economaidd. Pan fo cynlluniau enfawr yn cael eu datblygu, mae hyn yn gwneud pethau'n anodd i ddarparwyr bach, a bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwn.</p> <p>Diolchodd GR i MWil am y cyflwyniad.</p>	
6.	<p><u>Ymestyn Contract y Panel Dinasyddion</u></p> <p>Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan JW ar y cynnig a gyflwynwyd gan CGGC ar gyfer darparu'r Panel Dinasyddion (PD) yn 2019-20 ynghyd â'r opsiynau ar gyfer gyrru'r cynnig yn ei flaen.</p> <p>Bu contract presennol CGGC (a ddaliwyd gan CSDd ers 2017) yn weithredol am 2 flynedd gydag opsiwn i'w ymestyn i 3<sup>ydd</sup> flwyddyn yn ôl yr un telerau'n union. Mae'r PD, sef panel rhithwir, yn cynnwys cynrychiolaeth o ardaloedd ledled y rhanbarth. Fodd bynnag, nid yw'r gynrychiolaeth yn gyfrannol, gyda'r gyfran fwyaf yn dod o Gonwy. Cafwyd trafodaeth â CGGC ynghylch y posibilïadau o ran cynyddu'r gynrychiolaeth o ardaloedd eraill ar draws y rhanbarth, gan sicrhau bod aelodau'r panel yn adlewyrchu demograffeg leol, a lefel well o Wybodaeth Reoli.</p> <p>Mewn cyfarfod Cyfarwyddwyr diweddar, ystyriwyd yr opsiynau a ganlyn:</p> <p>Opsiwn 1 – rhoi estyniad o 12 mis i'r contract, ynghyd â chynyddu gweithgaredd ac archwilio cynigion o ran parhau â'r PD yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>Opsiwn 2 – ymestyn y contract presennol gyda mwy o gyllid, yn seiliedig ar gynyddu costau staff ac o'r 0.6 (cyfwerth ag amser llawn, CALI) presennol i naill ai 1 CALI, 1.5 CALI neu 2 CALI gyda'r costau'n cael eu darparu.</p> <p>Opsiwn 3 – Partneriaid i ddarparu adnoddau i gefnogi darparu'r PD rhanbarthol o Ebrill 2019.</p>	

	<p>Option 4 - Diddymu'r contract cyn gynted ag y bo modd, gyda thoriad yn y gwasanaeth i ganiatáu ar gyfer cwblhau ymarfer caffael.</p> <p>Awgrymwyd opsiwn arall i'w ystyried hefyd o ran datganoli pŵer i lefel fwy lleol.</p> <p>Roedd y cyfarwyddwyr yn cytuno i argymhell i'r BPRh y dylid ymestyn y contract presennol am gyfnod o chwe mis, tra bo'r BPRh yn ymgymryd ag adolygiad o anghenion a'r gofynion ar y gwasanaeth yn y tymor hwy.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i BPRhGC er mwyn trafod yr argymhelliad gan y Cyfarwyddwyr.</p> <p>Sefydlwyd y Panel Dinasyddion gwreiddiol gan WJ. Roedd angen i'r panel fod yn ystyrlon, yn rhywle lle gallai pobl siarad drwy ba gyfrwng bynnag a ddewisir ganddynt, gan gynnwys iaith arwyddion. Ni fu bwriad erioed i'r panel fod yn fwrdd lle byddai pobl yn cyfarfod wyneb yn wyneb. Gyda dros 230 o bobl wedi'u rhestru, byddai hyn yn amhosib, ac mae WJ yn frwdfrydig ynghylch cadw'r ffurf rithwir hon. Mae'r panel yn eithriadol o lwyddiannus, fel y gwelir o ran yr ymatebion a dderbyniwyd i'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Gadawodd WJ y cyfarfod ar y pwynt hwn.</p> <p>Diolchodd ME i'r PD am yr holl waith a gwblhawyd ganddo hyd yma. Fodd bynnag, teimlodd bod angen i'r PD adlewyrchu'r rhanbarth cyfan ac efallai bod angen i ni ystyried sut y gellid cyflawni hyn orau.</p> <p>Roedd y bwrdd yn cytuno y dylid cymeradwyo argymhelliad y cyfarwyddwyr i ymestyn y contract presennol am gyfnod o chwe mis, tra bo'r BPRh yn ymgymryd ag adolygiad o anghenion a'r gofynion o ran y gwasanaeth yn y tymor hwy.</p>	<p>Adrodd i BPRhGC ym mis Mehefin</p>
<p>7.</p>	<p><u>Cydnabyddiaeth Ariannol i Ofalwyr</u></p> <p>Yn ddiweddar, cododd JLe y mater o daliadau cydnabyddiaeth i aelodau o'r BPRh nad ydynt yn cael tâl gan unrhyw gorff arall ar gyfer mynychu. Mae'r ymrwymiad i'r BPRh yn wirfoddol, ac mae'r mater hwn wedi cael ei godi a'i drafod yn flaenorol.</p> <p>Holodd JLe p'un a yw aelodau'r BPRh yn credu ei fod yn briodol i wneud taliad cydnabyddiaeth i ofalwyr a chynrychiolwyr dinasyddion i gydnabod eu cyfraniad.</p> <p>Nododd JLe 3 rheswm dros drafod y mater hwn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gall y diffyg cydnabyddiaeth ariannol fod oherwydd anawsterau o ran recriwtio cynrychiolaeth o blith dinasyddion ar BPRhGC.</li> <li>2. Cytunodd JLe gyda'i rôl yn seiliedig ar 1 diwrnod y mis, er mwyn paratoi'n iawn ar gyfer cyfarfod y BPRh, ond mae'r gwaith wedi gofyn am fwy nag 1 diwrnod.</li> <li>3. Nododd JLe hefyd ei bod yn cael ei gwahodd i fynychu amryw gyfarfodydd eraill yn rhinwedd bod yn ofalwr, ac mae'n eu mynychu</li> </ol>	

	<p>er mwyn gwneud gwahaniaeth gan fod cydweithredu'n gofyn am gael sefydliadau'n ymgysylltu â phobl sydd wedi 'byw profiadau'.</p> <p>Nododd GR bod yr ymateb a dderbyniwyd gan LIC yn glir iawn o ran datgan nad oes disgwyl i fyrddau wneud taliadau i gynrychiolwyr sy'n ofalwyr, y tu hwnt i ad-dalu treuliau. Fodd bynnag, mae'n bwysig i gynrychiolwyr sy'n ofalwyr deimlo eu bod yn cael cefnogaeth i wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at waith y byrddau partneriaeth rhanbarthol, ac nid oes disgwyl i gynrychiolydd sy'n ofalwr fod o dan anfantais ariannol drwy fynychu cyfarfod bwrdd rhanbarthol.</p> <p>Nododd JLe ei bod yn disgwyl am eglurhad gan Chris Stevens ynghylch y mater hwn a ph'un a ellir caniatáu taliadau o'r fath er hynny.</p> <p>Dywedodd WJ ei bod yn cytuno'n llwyr â'r cynnig, a dylai Gogledd Cymru osod cysail o ran y mater hwn.</p> <p>Nododd PW ei fod y hapus i fynychu fel cynrychiolydd gofalwyr, gan nodi ei rôl wirfoddol arall gyda Caniad, sydd â strwythur ar waith o ran bancio amser. Rhoddir cydnabyddiaeth drwy ddarparu amryw weithgareddau yn ôl nifer yr oriau a gwblheir.</p> <p>Nododd JW bod peidio â chytuno â'r cais hwn yn dangos anghydraddoldeb, ac mae'n cymeradwyo'r angen i ymrwymo i fodel tâl.</p> <p>Gofynnodd JLo a oedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill yng Nghymru wedi mynd i'r afael â'r mater hwn, a beth oedd eu penderfyniad hwy yng nghyswllt y mater.</p> <p>Gofynnodd GR pwy fyddai'n ariannu'r gydnabyddiaeth os penderfynir bwrw ymlaen â hyn.</p> <p>Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cais mewn egwyddor, y dylid gwneud taliadau cydnabyddiaeth, a bod angen ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Holi p'un a yw BPRh'au eraill yng Nghymru wedi mynd i'r afael â'r mater hwn.</li> <li>• Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth yn trafod sut i fwrw ymlaen â'r mater.</li> <li>• Adrodd yn ôl i BPRhGC ym mis Mai.</li> </ul>	<p>Agenda'r BPRh ym mis Mai</p> <p>BJE NS – mis Mawrth</p>
8.	Unrhyw Fater Arall Dim byd i'w adrodd.	